# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI**

Date and Time

**5.30 y.h., DYDD MAWRTH, 20FED HYDREF, 2015**

Lleoliad

**Meeting Room, Frondeg, Pwllheli, LL53 5RE.**

Pwynt Cyswllt

**Bethan Adams**

**01286 679020**

**BethanAdams@gwynedd.gov.uk**

(DISTRIBUTED Dydd Llun, 13 Hydref 2015)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

| | |
|---|---|
| I'w gadarnhau | Aelod Lleol |
| Michael Sol Owen | Aelod Lleol |
| Peter Read | Aelod Lleol Abererch |

## Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Rod Green | Cynrychioli Cymdeithas Cychwyr Pwllheli a'r Cylch |
| Stephen Tudor | Cynrychioli Clwb Hwylio Pwllheli |
| David Dewsbury | Cynrychioli Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli |
| Wil Partington | Cynrychioli Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli |
| Andrew Picken | Cynrychioli Siambr Fasnach Pwllheli |
| Councillor Mici Plwm | Cynrychioli Cyngor Tref Pwllheli |
| Clive Moore | Cynrychioli Sefydliad y Bad Achub Pwllheli |

## Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Councillor David Richardson | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| Gethin Glyn Williams | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw |
| Dr John Jones-Morris | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog |

# RHAGLEN

**1. CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd am 2015/16.

**2. IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd am 2015/16.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**6. COFNODION** 1 - 4

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 31 Mawrth, 2015, fel rhai cywir.

**7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR** 5 - 10

Cyflwyno adroddiad ysgrifenedig gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.

**8. ETHOL SYLWEDYDDION**

I ethol sylwedyddion i wasanaethu ar y canlynol –

a) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi
b) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw
c) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog

**9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

I nodi y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 22 Mawrth, 2016.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI 31/3/15

**Presennol:** Y Cynghorydd Michael Sol Owen (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Peter Read (is-gadeirydd)

Y Cynghorydd Robert J. Wright (Cyngor Gwynedd); ynghyd â David Dewsbury (Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli), Clive Moore (Sefydliad y Bad Achub), W. A. Partington (Cymdeithas Masnachwyr Morwrol) a Stephen Tudor (Clwb Hwylio Pwllheli).

**Hefyd yn bresennol:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Llyr B. Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), Wil Williams (Rheolwr Harbwr Pwllheli) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Andrew Picken (Siambr Fasnach Pwllheli) a'r Cynghorydd Mici Plwm (Cyngor Tref Pwllheli).

**1. CROESO**

Estynnwyd croeso i Clive Moore a oedd yn mynychu ei gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ran Sefydliad y Bad Achub.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol a gynhaliwyd ar 28 Hydref, 2014 fel rhai cywir.

**4. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL**

**(a) Côd Diogelwch Harbyrau**

Nodwyd bod y Côd wedi ei ddosbarthu i'r aelodau a ni dderbyniwyd sylwadau rhwng y cyfarfod diwethaf a'r cyfarfod yma.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed trefn o godi pryder o dan y Côd Diogelwch Harbyrau, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y gellir cyfeirio pryder at y Gwasanaeth Morwrol neu Reolwr yr Harbwr. Eglurodd y byddai'r gwasanaeth yn ymchwilio i'r mater oni bai ei fod yn gysylltiedig â damwain, lle adroddir i'r *Marine Accident Investigation Branch* (MAIB). Pwysleisiwyd yr angen i'r aelodau gysylltu pan ddaw'r pryder i'r amlwg.

Nododd yr aelod bod angen gosod amserlen ar gyfer ymateb i bryderon yng nghyswllt y Côd, roedd pryder o ran ansawdd y disel coch a ddarperir yn yr Hafan wedi ei amlygu yn y cyfarfod diwethaf ac nid oedd ymateb digonol wedi ei dderbyn.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod y Gwasanaeth wedi dadansoddi'r sefyllfa gan ddod i'r casgliad bod ansawdd y disel coch yn dderbyniol ond bod Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli yn anghytuno efo hyn. Cydnabuwyd efallai bod diffyg cyfathrebu yng nghyswllt y mater a chynhelir cyfarfod fory i drafod y mater.

**(b) Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau**

Adroddwyd y cymerwyd camau i gadarnhau aelodaeth y Pwyllgor Ymgynghorol. Nodwyd bod angen derbyn cofnodion cyfarfodydd blynyddol diwethaf y mudiadau yn ogystal â'u cyfansoddiad. Eglurwyd ei bod yn bwysig derbyn y cofnodion er sicrhau bod y wybodaeth a roddir yn y Pwyllgor yn cael ei raeadru gan y cynrychiolydd i'r mudiad.

Datganwyd pryder o ran presenoldeb cynrychiolydd Cymdeithas Cychwyr Pwllheli a'r Cylch yn y cyfarfodydd. Gofynnwyd i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig gysylltu â'r cynrychiolydd.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) bod yr aelodau yn sicrhau bod cofnodion cyfarfod blynyddol diwethaf eu mudiad yn ogystal â'u cyfansoddiad yn cael eu hanfon at y Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu;**
**(ii) bod y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn cysylltu efo cynrychiolydd Cymdeithas Cychwyr Pwllheli a'r Cylch yng nghyswllt ei bresenoldeb.**

**(c) Carthu Harbwr Pwllheli a'r Strategaeth Garthu**

Adroddwyd y tynnwyd 10,500$m^2$ o dywod o geg yr Harbwr, cynhaliwyd arolwg hydrograffeg cyn ac ar ôl y gwaith gydag arolwg arall i'w gynnal yn ystod mis Ebrill. Nododd bod trefniadau mewn lle gan Uned Amddiffyn yr Arfordir i symud y tywod i draeth Carreg y Defaid. Nodwyd bod y gwaith carthu yn gyffredinol wedi bod yn llwyddiannus.

Nodwyd yn dilyn gweithdy a gynhaliwyd gyda chwmni Arup Associates yng nghyswllt Strategaeth Garthu newydd ar gyfer Pwllheli bod oediad yng nghwblhau dogfen ddrafft gan fod y cwmni mewn trafodaethau efo Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Amlygodd y trafodaethau:

- ei fod yn ofynnol i gynnal asesiad effaith o dan y Rheoliadau Cynefin gan olygu bod sgôp y gwaith wedi ei ymestyn;
- bod angen hawliau statudol Caniatâd Morol.

Tynnwyd sylw bod copi o'r ddogfen ddrafft wedi ei anfon i'r aelodau ac y gwerthfawrogir derbyn sylwadau/cywiriadau'r aelodau er mwyn cyfoethogi ansawdd y ddogfen.

Awgrymodd aelod y dylid cynnal cyfarfod efo aelodau'r Pwyllgor i drafod y ddogfen ddrafft.

Nododd aelod bod Strategaeth Garthu glir yn holl bwysig i ddyfodol yr Hafan a Harbwr a dylid bwrw ymlaen i wneud y gwaith.

Mewn ymateb i sylw gan aelod nad oedd cyfeiriad yn y ddogfen at yr Harbwr Mewnol, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y strategaeth yn cyfarch anghenion basn yr Harbwr, mynediad, Yr Academi a'r Sianel Mordwyo. Ychwanegodd yr aelod y dylid rhoi sylw i'r Harbwr Mewnol yn y ddogfen hydynoed os na fydd unrhyw waith yn cael ei wneud.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) bod yr aelodau yn anfon sylwadau ar y Strategaeth Garthu Drafft at yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned erbyn 24 Ebrill 2015;**
**(ii) cynnal cyfarfod efo aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol yn yr wythnos ddilynol.**

**(ch) Academi Hwylio**

Rhoddwyd diweddariad ar ddatblygiad yr Academi Hwylio gan gynrychiolydd Clwb Hwylio Pwllheli. Adroddwyd y byddai Sioe Gychod Cymru yn cael ei gynnal ym Mhlas Heli rhwng

8-10 Mai 2015. Nodwyd bod y gwaith adeiladu ar amser i'w gwblhau erbyn 11 Gorffennaf 2015, pryd cynhelir digwyddiad.

**(d) Mordwyo ac Angorfeydd**

Nodwyd bod y cymorthyddion mordwyo ar eu safleoedd cywir a byddai'r bwiau parth traethau yn eu lle erbyn y Sulgwyn.

Adroddwyd bod angen gwneud gwaith ar yr angorfeydd cyffredinol ar gadwyni blaen ac ôl yn yr Harbwr Allanol lle cedwir cychod bach a bwriedir buddsoddi tua £10,000 yn yr Hydref i ddod â'r angorfeydd i fyny i safon.

**(dd) Ystadegau Morwrol**

Adroddwyd bod nifer uwch o ffurflenni cais am drwydded wedi ei dderbyn blwyddyn yma o gymharu â llynedd ac y gobeithir y derbynnir mwy.

Nododd aelod bod ystadegau angorfeydd yr Hafan a'r Harbwr yn dangos bod niferoedd i lawr 18% o gymharu â llynedd. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd y prosesau ar gyfer 2015 wedi eu cwblhau a'i fod yn ffyddiog y cyrhaeddir yr un lefel a llynedd. Ychwanegodd nad oedd y farchnad yn iach yn gyffredinol a bod ymgais wedi ei wneud yn ystod y Gaeaf i gynyddu incwm gan wahodd cychod o harbyrau eraill i Bwllheli.

Nodwyd bod angen ystyried cynnig bargeinion er mwyn ceisio cynyddu niferoedd yn yr Hafan a Harbwr.

Awgrymodd aelod mai un ffordd o gynyddu niferoedd oedd manteisio ar y farchnad newydd o dwristiaeth gwyrdd yn Iwerddon gan ddenu cychod yn nôl i Bwllheli, nododd ei fod o'r farn ei fod yn hynod realistig y byddai cychod hefyd yn cael eu trwsio ym Mhwllheli.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o ran yr hen declyn codi, nododd Rheolwr Harbwr Pwllheli ei fod wedi ei werthu a byddai'n mynd yn y bythefnos nesaf.

**(e) Cyllidebau**

Ymhelaethodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ar y gyllideb hyd at ddiwedd Chwefror 2015.

Nododd aelod ei ddymuniad bod canran o elw'r Hafan ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael ei fuddsoddi yn ôl yn yr Hafan.

Mewn ymateb i sylw gan aelod bod swm Les yr Arfordir yn ormodol, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod trafodaethau wedi bod yn y gorffennol yng nghyswllt y taliad a bod y sefyllfa wedi gwella gan fod y taliad wedi ei selio ar y nifer o gychod nawr.

Mewn ymateb i sylwadau gan aelodau parthed fformat y wybodaeth gyllidebol, nodwyd y crynhoir y wybodaeth o hyn ymlaen. Ychwanegodd aelod y dylid ystyried cynnwys colofn yn cynnwys gwybodaeth am y flwyddyn flaenorol.

**(f) Ffioedd 2015/16**

Adroddwyd bod ffioedd 2015/16 yn codi yn unol â chwyddiant a thynnwyd sylw i wybodaeth gymharol harbyrau eraill.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed codi tâl ar brosesu cardiau credyd, nodwyd nad oedd tâl yn cael ei godi ar hyn o bryd ond byddai'n fater i ystyried.

Tynnodd aelod sylw bod y wybodaeth gymharol wedi ei selio ar ffioedd fesul medr yn hytrach na'r drefn bandio a ddefnyddir ym Mhwllheli. Nododd bod ffioedd Pwllheli ar gyfartaledd yn uwch na nifer o harbyrau.

Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod Rheolwr Harbwr Pwllheli wedi gwneud gwaith manwl wrth gasglu'r wybodaeth ond byddai'n gwirio'r wybodaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, eglurwyd y codir tâl o £13.26 fesul cwch ymwelwyr yn yr Hafan ar gyfer uchafswm o 4 awr gan fod unigolion yn defnyddio cyfleusterau, meysydd parcio a'r pontŵn. Ychwanegwyd y gwnaed ymgais i helpu busnesau lleol gan beidio codi 10% ar ffioedd cychod hamdden ar berchnogion cychod masnachol o Wynedd, roedd perchnogion cychod masnachol tu allan i Wynedd dal i dalu 10% ychwanegol i gadw cwch yn yr Hafan.

Gofynnwyd am farn y Pwyllgor yng nghyswllt y trefniant presennol o wahaniaethu o ran codi ffi uwch ar gwch siarter na chwch pysgota. 'Roedd yr aelodau'n gyffredinol hapus efo'r trefniant presennol.

**PENDERFYNWYD y dylid parhau â'r trefniant.**

**(ff) Costau Tanwydd**

Gofynnwyd am farn y Pwyllgor yng nghyswllt y trefniant presennol o godi 2c yn uwch ar bris prynu i mewn disel coch ar ddefnyddwyr masnachol a gwerthu petrol ar bris y pwmp.

**PENDERFYNWYD y dylid parhau â'r trefniant.**

**(g) Staff**

Rhoddwyd diweddariad ar sefyllfa staffio'r harbwr, nodwyd y penodir aelod o staff i gynorthwyo ar y pontŵn tanwydd.

**(ng) Tâl Ychwanegol ar Daliadau Debyd Uniongyrchol**

Nododd aelod y dylid ail ystyried y tâl ychwanegol a godir ar unigolion a oedd yn gwneud taliadau drwy ddebyd uniongyrchol er mwyn cadw unigolion a denu mwy o unigolion i'r Hafan.

Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y mater ar raglen waith y Gwasanaeth i helpu defnyddwyr heb effeithio ar incwm.

**PENDERFYNWYD bod y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn cysylltu â'r Adran Gyllid yng nghylch y mater.**

**5. Cyfarfod Nesaf**

Nodwyd y caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 20 Hydref, 2015.

Dechreuodd y cyfarfod am 6.00pm a daeth i ben am 7.45pm

| CYFARFOD | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |
|---|---|
| DYDDIAD | 20 Hydref 2015 |
| TEITL | Diweddariad ar Faterion Rheolaethol yr Harbwr |
| AWDUR | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |

**1. Cyflwyniad**

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried a chynghori ar faterion yn ymwneud â rheolaeth, diogelwch a datblygiad yr harbwr.

1.2 Pwrpas yr adroddiad yma yw cyflwyno diweddariad cryno o'r cyfnod hyd at Hydref 2015

**2. Harbwr Pwllheli (allanol)**

2.1 Yn 2015/16 roedd ffigyrau angorfeydd ar gyfer yr Harbwr allanol fel a ganlyn; -

- 87 o angorfeydd blynyddol. Hyn yn cymharu gyda 91 cwch ar angorfa yn 2014.
- 47% o'r cwsmeriaid blynyddol gyda chwch hwylio. 53% gyda chychod pŵer.
- 66% yn breswyl yng Ngwynedd gyda 34% yn breswyl tu allan y sir.
- Mae 8 cwch masnachol yn yr harbwr allanol. 6 Cwch Pysgota. 1 Cwch Siarter. 1 Cwch masnachol Iard Cychod.

2.2 Ar y cyfan, gwelwyd lleihad mewn nifer cwsmeriaid dros y flwyddyn ddiwethaf.

2.3 Mae 987 o Gychod Pŵer wedi cofrestru yng Ngwynedd yn 2015. Hyn yn cymharu gydag 1001 yn 2014. Roedd 104 wedi cofrestru yn harbwr allanol Pwllheli gyda'r cyfan wedi cofrestru yn unol â threfniant allanoli rheolaeth llithrfa'r harbwr allanol.

2.4 Mae 696 o Fadau Dwr Personol wedi cofrestru yng Ngwynedd yn 2015. Hyn yn cymharu gydag 693 yn 2014. Roedd 42 wedi cofrestru yn harbwr allanol Pwllheli gyda'r cyfan wedi cofrestru yn unol â threfniant allanoli rheolaeth llithrfa'r harbwr allanol.

**3. Cod Diogelwch Morwrol**

3.1 Mae copi o'r Cod Diogelwch Morwrol eisoes wedi ei ddosbarthu ac mae ar gael ar safle we Cyngor Gwynedd

3.2 Mae'r ddogfen yn cael ei adolygu yn rheolaidd ac fe werthfawrogir sylwadau ar ei chynnwys gan Aelodau o'r Pwyllgor.

**4. Mesuryddion Perfformiad**

4.1 Mae'r Gwasanaeth yn awyddus i ddatblygu Mesuryddion Perfformiad mewn perthynas â rheolaeth yr harbyrau. Gwahoddir syniadau neu awgrymiadau cychwynnol ar fesuryddion perfformiad gan aelodau'r Pwyllgor.

4.2 Pwrpas mesuryddion o'r fath fyddai mesur a monitro deilliannau'r gwasanaeth a gynigir. Wrth lunio mesuryddion o'r fath, bydd angen sicrhau fod unrhyw wybodaeth neu ddata yn gyfredol; yn berthnasol; ac yn addas a chlir i'w craffu.

**5. Prif Faterion**

5.1 <u>Mordwyo</u>

5.1.1 Cafwyd archwiliad gan Awdurdod Goleudai Tŷ'r Drindod ar y 14eg Medi 2015. Mae adroddiad Tŷ'r Drindod yn tynnu sylw at ddiffyg yng nghyflwr Cymhorthydd Mordwyo safle Hafan y Môr sydd ym mherchenogaeth cwmni preifat.

5.1.2 Nid oes Rhybudd i Forwyr mewn grym yn harbwr Pwllheli. Mae holl gymhorthion mordwyo ar eu safle priodol. Mae yn fwriad ystyried adolygu bwiau parth cyflymder uchaf ac fe ofynnir am farn yr Aelodau ynglŷn â pheidio â lleoli bwiau parth cyflymder uchaf ar draeth Marian y De a hefyd addasu ardal parth cyflymder uchaf ardal traeth Glandon er hwyluso gweithgareddau hamdden.

5.2 Cynnal a chadw

5.2.1 Cyflwynir trefniadau a rhaglen waith ar gyfer cynnal a chadw Cymhorthion Mordwyo harbwr Pwllheli gan y Rheolwr Harbwr yn y cyfarfod.

5.2.2 Bydd y Rheolwr Harbwr hefyd yn cyflwyno rhaglen waith cynnal a chadw a fu i'w gweithredu yn Harbwr Pwllheli yn ystod y cyfnod Hydref - Rhagfyr ac yn rhoi amlinell o'r rhaglen waith a fu i'w gweithredu yn y cyfnod Ionawr – Mawrth 2016. Gofynnir am adborth aelodau'r Pwyllgor am unrhyw waith ychwanegol bydd angen ei ystyried.

5.3 Materion Staff

5.3.1 Mae trefniadau adolygol a strwythur staff harbwr Pwllheli yn parhau. Yn dilyn llwyddiant yr ad-drefniant rhagwelir bydd y trefniant yn parhau at y dyfodol.

5.3.2 Mae cyfnod cyflogaeth Cymhorthion Harbwr (tymhorol) Abermaw a Porthmadog wedi eu hymestyn hyd at ddiwedd Hydref 2015. Fe fydd dau gymhorthydd harbwr yn rhan o'r tîm Morwrol ehangach er sicrhau bod yn bosibl ymateb i ddigwyddiadau a chwblhau rhaglen waith cynnal a chadw harbyrau Pwllheli, Porthmadog ac Abermaw.

5.4 Materion Eraill

5.4.1 Trefniant carthu ceg yr harbwr - gaeaf 2015/16.
5.4.2 Cludo defnydd traeth Craig yr Imbill.
5.4.3 Asesiad OPRC (cynllun atal llygredd olew)
5.4.4 Adolygu trefniant angorfeydd harbwr allanol
5.4.5 Ymgynghoriaeth Cenedlaethol - ***https://www.gov.uk/government/consultations/harbour-closure-and-pilotage-function-removal-orders-draft-guidance***

## 6. Materion Ariannol

6.1 Mae crynodeb o gyllidebau'r Harbwr wedi ei gynnwys yn yr atodiadau.

6.2 Bydd drafft ffioedd a thaliadau'r Harbwr Allanol 2016/17 yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod.

6.3 Yn ystod y cyfnod, bu'n ofynnol i ymrwymo adnodd cyllid ar gyfer y canlynol: -

- Cymhorthion Mordwyo a Llusernau
- Cynnal a chadw angorfeydd Ardal 5 a 6
- Ymestyn cyfnod cyflogaeth staff
- Archwilio Angorfeydd Harbwr

6.4 Mae'r cyllidebau yn cael eu monitro yn fisol ac fe fydd Adolygiad Ail Chwarter yn cael ei gynnal yn ystod yr wythnosau cyntaf ym mis Hydref. Cyflwynir diweddariad i'r Aelodau yn y cyfarfod.

## 7. Digwyddiadau

7.1 Dros gyfnod yr Haf 2015, trefnwyd nifer o ddigwyddiadau gan gynnwys: -

- Cystadlaethau Cenedlaethol a Rhyngwladol mawreddog Clwb Hwylio Pwllheli
- Agoriad yr Academi Hwylio
- Sioe Gychod Gogledd Cymru
- Gŵyl Fwyd Mor Gogledd Cymru

7.2 Bwriedir cynnwys rhestr digwyddiadau ar gyfer Haf 2016 yn y cyfarfod nesaf, ac fe ofynnir am unrhyw wybodaeth berthnasol a allwn ei gynnwys yn yr adroddiad.

**8. Hafan Pwllheli (Marina)**

8.1 Yn 2015/16 roedd ffigyrau angorfeydd ar gyfer yr Hafan fel a ganlyn; -

- 292 o angorfeydd blynyddol. Cymharu gyda 293 cwch ar angorfa yn 2014.
- 53% o'r cwsmeriaid blynyddol gyda chwch hwylio. 47% gyda chychod pŵer.
- 19% yn breswyl yng Ngwynedd gyda 81% yn breswyl tu allan y sir.
- Mae 1 cwch masnachol yn yr Hafan sef cwch siarter (pysgota.)

8.2 Ar y cyfan, ni welwyd newid yn y nifer cwsmeriaid dros y flwyddyn ddiwethaf.

8.3 Mae 987 o Gychod Pŵer wedi cofrestru yng Ngwynedd yn 2015. Hyn yn cymharu gydag 1001 yn 2014. Roedd 104 wedi cofrestru yn yr Hafan drwy drefniant cwmnïau Parcio a Lansio.

8.4 696 o Fadau Dŵr Personol wedi cofrestru yng Ngwynedd yn 2015. Cymharu gydag 693 yn 2014. Roedd 43 wedi cofrestru yn yr Hafan drwy drefniant cwmnïau Parcio a Lansio.

**9. Prif Faterion**

9.1 <u>Cynnal a chadw</u>

9.1.1 Bydd y Rheolwr Harbwr yn cyflwyno rhaglen waith prif faterion cynnal a chadw a fu i'w gweithredu yn yr Hafan ystod y cyfnod Hydref - Rhagfyr ac yn rhoi amlinell o'r rhaglen waith y prif faterion a fu i'w gweithredu yn y cyfnod Ionawr – Mawrth 2016. Gofynnir am adborth aelodau'r Pwyllgor am unrhyw waith ychwanegol bydd angen ei ystyried.

9.2 <u>Materion Staff</u>

9.2.1 Mae trefniadau adolygol a strwythur staff Hafan Pwllheli yn parhau. Yn dilyn llwyddiant yr ad drefniant rhagwelir bydd y trefniant yn parhau at y dyfodol.

9.2.2 Oherwydd newidiadau yn strwythur staff Hafan Pwllheli yn ystod 2015 mae cyfnod cyflogaeth Cymhorthion Harbwr (tymhorol) Abermaw a Porthmadog wedi eu hymestyn hyd at ddiwedd Hydref 2015. Fe fydd dau gymhorthydd harbwr yn rhan o'r tîm ehangach er sicrhau bod yn bosibl ymateb i ddigwyddiadau a chwblhau rhaglen waith cynnal a chadw Hafan ac harbyrau Pwllheli, Porthmadog ac Abermaw.

9.3 <u>Materion Eraill</u>

9.3.1 Disel Coch.
9.3.2 Craen symudol
9.3.3 Llwybrau Cyhoeddus tir Hafan
9.3.4 Trefniant Plas Heli

**10. Materion Ariannol**

10.1 Mae crynodeb o gyllidebau'r Hafan wedi ei gynnwys yn yr atodiadau.

10.2 Bydd drafft ffioedd a thaliadau Hafan ar gyfer 2016/17 yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod.

**Adroddiad Harbwr Pwllheli**

**Cyfrif Incwm a Gwariant 2014-15**

| | Cyllideb 2014-15 | Cyfrifon Terfynol 2014-15 | Gwahaniaeth Gor (Tan) wariant |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Gweithwyr | | | |
| Cyflogau | 30,770 | £21,025 | -9,745 |
| Hyfforddiant | 0 | £0 | 0 |
| Yswiriant Atebolrwydd | 920 | £202 | -718 |
| Amrywiol Eraill | 400 | £25 | -375 |
| | | | |
| Adeiladau | | | |
| Cynnal a Chadw | 10,380 | £3,161 | -7,219 |
| Offer | 0 | £0 | 0 |
| Contractwyr | 0 | £3,018 | 3,018 |
| Ynni | 2,910 | £2,222 | -688 |
| Trethi | 11,420 | £11,418 | -2 |
| Dwr | 700 | £594 | -106 |
| Lês yr Arfordir | 4,330 | £1,100 | -3,230 |
| Glanhau | 2,630 | £2,792 | 162 |
| Casglu Sbwriel | 600 | £626 | 26 |
| Yswiriant Adeiladau | 1,210 | £280 | -930 |
| | | | |
| Cludiant | | | |
| Costau Rhedeg Cerbydau (cynnwys cychod) | 620 | £0 | -620 |
| Costau Teithio | 60 | £0 | -60 |
| | | | |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | |
| Offer - cynnwys diogelwch | 4,300 | £876 | -3,424 |
| Arolygiadau Tanfor | 2,040 | £0 | -2,040 |
| Arwyddion | 0 | £750 | 750 |
| Cynnal Cychod | 0 | £0 | 0 |
| Banerau | 0 | £205 | 205 |
| Gwasanaethu'r Angorfeydd | 0 | £4,132 | 4,132 |
| Ffioedd gan gynnwys Ymgynghorwyr | 0 | £22,741 | 22,741 |
| Trwyddedau | 150 | £0 | -150 |
| Deunyddiau Swyddfa a Rhwydwaith | 800 | £264 | -536 |
| Amrywiol | 380 | £3,237 | 2,857 |
| | | | |
| Cefnogaeth Canolog | | | |
| Ad-Daliadau Costau Canolog | 6,759 | £6,759 | 0 |
| | | | |
| **Cyfanswm Gwariant** | **81,379** | **£85,428** | **4,049** |
| | | | |
| Incwm | | | |
| Ffioedd | -69,610 | -£61,482 | 8,128 |
| Rhenti | -9,170 | £0 | 9,170 |
| Cyfraniad o Gronfa Adrannol | 0 | -£18,504 | -18,504 |
| | | | |
| **Cyfanswm Incwm** | **-78,780** | **-£79,986** | **-1,206** |
| | | | |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | **2,599** | **£5,442** | **2,843** |

**Adroddiad Harbyrau Cyngor Gwynedd**

**Cyfrif Incwm a Gwariant 2014-15**

| | Cyllideb Terfynol 2014-15 £ | Cyfrifon Terfynol 2014-15 £ | Gwahaniaeth Gor (Tan) wariant £ |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Gweithwyr | | | |
| Cyflogau | 170,690 | 129,566 | -41,124 |
| Hyfforddiant | 0 | 499 | 499 |
| Yswiriant Atebolrwydd | 3,210 | 1,108 | -2,102 |
| Amrywiol Eraill | 2,250 | 1,607 | -643 |
| | | | |
| Adeiladau | | | |
| Cynnal a Chadw | 62,510 | 9,247 | -53,263 |
| Offer | 0 | 818 | 818 |
| Contractwyr | 0 | 4,882 | 4,882 |
| Ynni | 7,110 | 3,810 | -3,300 |
| Trethi | 16,850 | 16,843 | -7 |
| Dwr | 2,270 | 2,970 | 700 |
| Lês yr Arfordir | 4,330 | 1,100 | -3,230 |
| Glanhau | 2,630 | 2,942 | 312 |
| Casglu Sbwriel | 2,420 | 3,629 | 1,209 |
| Yswiriant Adeiladau | 2,970 | 517 | -2,453 |
| | | | |
| Cludiant | | | |
| Costau Rhedeg Cerbydau (cynnwys cychod) | 2,460 | 608 | -1,852 |
| Costau Teithio | 510 | 64 | -446 |
| | | | |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | |
| Offer - cynnwys diogelwch | 20,390 | 26,710 | 6,320 |
| Arolygiadau Tanfor | 7,010 | 1,240 | -5,770 |
| Arwyddion | 0 | 1,030 | 1,030 |
| Cynnal Cychod | 3,000 | 3,525 | 525 |
| Banerau | 0 | 263 | 263 |
| Gwasanaethu'r Angorfeydd | 0 | 4,847 | 4,847 |
| Ffioedd gan gynnwys Ymgynghorwyr | 0 | 25,331 | 25,331 |
| Trwyddedau | 600 | 300 | -300 |
| Deunyddiau Swyddfa a Rhwydwaith | 5,140 | 4,685 | -455 |
| Amrywiol | 1,460 | 4,230 | 2,770 |
| | | | |
| Cefnogaeth Canolog | | | |
| Ad-Daliadau Costau Canolog | 31,820 | 31,820 | 0 |
| | | | |
| **Cyfanswm Gwariant** | **349,630** | **284,191** | **-65,439** |
| | | | |
| Incwm | | | |
| Ffioedd | -220,490 | -186,252 | 34,238 |
| Rhenti | -15,270 | -15,441 | -171 |
| Cyfraniad o Gronfa Adrannol | 0 | -18,504 | -18,504 |
| | | | |
| **Cyfanswm Incwm** | **-235,760** | **-220,196** | **15,564** |
| | | | |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | **113,870** | **63,994** | **-49,876** |

**Prif Wahaniaethau**

**Gweithwyr - costau cyflogaeth - tanwario (£41,124))**

Tanwariant yn bennaf oherwydd swyddi gwag a trosiant staff. Darpariaeth yn y gyllideb am 6.5 swydd llawn amser. Y gwasanaeth wedi rhewi rhai swyddi i gwrdd a bwlch yn y targedau incwm yn y Gwasanaeth Morwrol. Tanwariant wedi golygu fod staff wedi ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol. Harbwrfeistr newydd wedi ei gyflogi yn Ionawr 2015.

**Adeiladau - cynnal a chadw - tanwario (£53,263)**

Cynnal a Chadw Adeiladau o dan reolaeth yr Adran Eiddo wedi tanwario £14,727. Gweddill o'r tanwariant,sef £38,536 yn ariannu diffyg incwm yn yr Harbyrau ynghyd a gwariant unwaith ac am byth ar bennawdau eraill yn ystod y flwyddyn.

**Cyflenwadau a Gwasnaethau - Ffioedd a Ffioedd Ymgynghorwyr gorwario £25,331**

Gwaith wedi ei gomisiynu i gwmni ARUP ar Strategaeth Carthu Harbwr Pwllheli - cyfraniad o Gronfa yr Adran yn cyfranu £18,504 tuag at y costau.

**Incwm - Ffioedd gorwario £34,238**

Diffyg incwm yn y ffioedd angorfeydd yn 2014-215 yn erbyn targed o £220,490